Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynderw
# West Cross Lane
# West Cross
# SA3 5LS

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynderw

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynderw wedi'i lleoli yng ngorllewin dinas Abertawe. Mae dalgylch yr ysgol yn ymestyn o Rhossili ar benrhyn Gŵyr i Dderwen Fawr yn Sgeti.

Mae 355 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 51 oed meithrin rhan-amser. Mae'r disgyblion wedi eu rhannu rhwng 13 dosbarth, gan gynnwys naw dosbarth oed cymysg a dau ddosbarth derbyn a dau ddosbarth meithrin.

Dros dreigl tair blynedd, mae tua 3% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r canran cenedlaethol (18%). Mae tua 28% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu a'r dysgu yn y cyfnod sylfaen ac anelir at sicrhau bod pob disgybl yn ddwyieithog erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Mae'r ysgol wedi adnabod 12% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn is na'r canran cenedlaethol o 21%.

Penodwyd y pennaeth dros dro i'w swydd ym mis Medi 2018. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda. Mae bron pob disgybl yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel o fewn yr ethos gofalgar, cynhwysol a chynhaliol. Maent yn dangos lefel uchel o ofal a pharch tuag at ei gilydd ac eraill. Mae hawliau'r plentyn yn ganolig i weledigaeth yr ysgol. Mae hyn yn agwedd ragorol.

Mae perthynas waith effeithiol iawn yn bodoli rhwng holl oedolion a disgyblion yr ysgol sy'n meithrin awyrgylch dysgu llwyddiannus. Mae'r staff yn fodelau rôl ieithyddol gadarn, sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn dda. Mae ethos naturiol Cymraeg a Chymreig yn bodoli yng nghymuned yr ysgol.

Mae'r pennaeth dros dro yn darparu arweiniad cadarn a chlir i waith yr ysgol. Mae ganddi weledigaeth eglur sy'n seiliedig ar greu ysgol gynhwysfawr a gofalgar lle mae lles disgyblion yn ganolog i holl waith yr ysgol. Mae'n gweithio'n llwyddiannus gyda'r uwch dîm rheoli, y disgyblion, staff, llywodraethwyr a'r rhieni i weithredu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Datblygu rolau strategol yr uwch dîm rheoli

A2 Gwneud defnydd mwy effeithiol o'r weithdrefn olrhain cynnydd disgyblion

A3 Sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 wneud dewisiadau mewn perthynas â'u dysgu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei dealltwriaeth eithriadol o hawliau'r plentyn sy'n ganolig i weledigaeth yr ysgol. Mae hyn yn hybu eu hymwybyddiaeth o degwch, cydraddoldeb a goddefgarwch yn effeithiol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth gychwyn yn yr ysgol, mae medrau llawer o ddisgyblion yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Dros gyfnod, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth iddynt symud trwy'r ysgol ac yn cyflawni yn unol â'r lefel a ddisgwylir erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Mae ychydig o'r disgyblion mwyaf abl yn gwneud cynnydd rhagorol ac mae rhan fwyaf y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n dda ar oedolion, a disgyblion eraill, ac yn dilyn cyfarwyddiadau'n ofalus. Maent yn mynegi eu syniadau'n glir ac yn mwynhau siarad am eu gwaith ag ymwelwyr. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu iaith lafar yn dda wrth sgwrsio am yr iâr fach goch. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, maent yn siarad yn hyderus am eu profiadau o fewn y dosbarth gan ddefnyddio geirfa gyfoethog wrth ddisgrifio'r cartref bwystfilod. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn sgwrsio'n rhugl yn y Gymraeg wrth rannu eu syniadau mewn amrediad o gyd destunau. Mae rhan fwyaf yn dangos parch wrth wrando ar safbwyntiau eraill ac yn siarad yn aeddfed yn y ddwy iaith wrth gyflwyno item ar raglen radio'r ysgol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae rhan fwyaf y disgyblion yn medru gofyn cwestiynau caeedig, er enghraifft wrth gynllunio eu gwaith thematig, 'Abertawe'n Fflam'. Mae medrau meddwl y disgyblion yn datblygu'n gadarn.

Mae medrau darllen Cymraeg y disgyblion yn datblygu'n gadarn ar draws yr ysgol. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer yn darllen yn hyderus ac yn adeiladu geiriau anghyfarwydd yn llwyddiannus. Er hyn, ychydig o ddisgyblion mwy galluog sy'n darllen gyda mynegiant ac yn lleisio barnau aeddfed ynglŷn â storïau a chymeriadau. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen yn hyderus ac yn weddol rhugl yn y ddwy iaith gan ddefnyddio goslef a mynegiant bwrpasol. Maent yn mynegi barn am lyfrau ac yn disgrifio'r prif gymeriadau a rhediad y digwyddiadau o fewn straeon yn ystyrlon. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn cymhwyso eu medrau darllen Saesneg yn bwrpasol i gefnogi eu gwaith mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Nid yw medrau darllen Cymraeg lleiafrif o ddisgyblion yn datblygu i'r un safon.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu erbyn diwedd y cyfnod sylfaen. Wrth ddatblygu eu medrau ysgrifennu cynnar, mae rhan fwyaf y disgyblion dosbarth derbyn yn ffurfio llythrennau yn gywir. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn defnyddio ffurf orchmynnol y ferf wrth ysgrifennu rysait a chyfarwyddiadau syml ar olchi dwylo. Mae cyflwyniad gwaith llawer o ddisgyblion yn gyson dda. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn ysgrifennu'n drefnus yn y ddwy iaith gan gyflwyno syniadau a gwybodaeth yn effeithiol. Er enghraifft, o fewn eu gwaith ar gerdd am ffilm y Goleudy, lle mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio cymhariaethau crefftus i gyfoethogi eu hiaith. Mae'r disgyblion yn cymhwyso eu medrau llythrennedd yn gadarn mewn meysydd amrywiol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio ansoddeiriau ac adferfau cyfoethog wrth ysgrifennu disgrifiad o'r 'Blitz' gan greu effaith deimladwy iawn. Ar adegau, mae taflenni gwaith yn cyfyngu ar fedrau ysgrifennu creadigol lleiafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2.

Yn y cyfnod sylfaen, mae gan lawer ddealltwriaeth da o gysyniadau mathemategol. Maent yn adnabod siapiau, deall pwrpas arian ac yn defnyddio'u gwybodaeth am rhif i ddatrys problemau ymarferol. Er enghraifft, wrth ddefnyddio arian parod yn siop y fferm i brynu eu byrbryd. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn pwyso a mesur gan ddefnyddio unedau ansafonol a safonol i goginio cawl blasus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau mathemateg rhan fwyaf y disgyblion yn dda. Mae gan y disgyblion ddealltwriaeth cadarn o rif ac maent yn medru datrys problemau geiriol yn hyderus. Mae rhan fwyaf y disgyblion hŷn yn gallu amcangyfrif hyd eu taith gerdded o'r ysgol i'r Mwmbwls. O ganlyniad, maent yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn effeithiol ar draws gwahanol elfennau o'r cwricwlwm.

Mae bron pob un disgybl ar draws yr ysgol yn dangos hyder wrth drafod gwaith technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Maent yn defnyddio amrywiaeth o raglenni TGCh yn hyderus wrth fewngofnodi i'w cyfrif personol yn annibynnol. Mae bron pob un yn cyfarwyddo ag arbed eu gwaith yn llwyddiannus. Wrth ddechrau'r cyfnod sylfaen, mae'r disgyblion ieuengaf yn gallu rheoli tegan electronig i ddilyn llwybr penodol ar y fferm. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r disgyblion yn ffilmio eu hunain o flaen sgrin werdd wrth berfformio stori'r geni. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio TGCh yn fedrus ac annibynnol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ehangach. Er enghraifft, wrth greu bas data o nodweddion a ffeithiau am awyrennau o'r Ail Ryfel Byd a mewnfudo llun o'r awyren. Mae bron pob disgybl yn defnyddio'r rhyngrwyd yn llwyddiannus iawn i chwilio am wybodaeth ac mae dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd e-ddiogelwch yn gadarn.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Mae safonau lles ac agwedd bron pob disgybl tuag at ddysgu yn eithriadol. Mae'r disgyblion hŷn yn cymryd cyfrifoldeb aeddfed i hybu a chefnogi lles eu cyfoedion. Mae bron pob disgybl yn dangos lefel uchel o ofal a pharch tuag at ei gilydd ac eraill. Mae hyn yn gryfder sy'n arwain at safonau uchel o les ac ymddygiad. Mae dealltwriaeth bron bob un o werthoedd moesol yn datblygu'n drwyadl iawn. Mae hawliau'r plentyn yn ganolig i weledigaeth yr ysgol. Mae hyn yn nodwedd ragorol. Mae dealltwriaeth eithriadol ganddynt o'u hawliau o dan gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ac mae hyn yn hybu eu hymwybyddiaeth o degwch, cydraddoldeb a goddefgarwch yn effeithiol. Mae'r disgyblion hŷn yn cynnal gwasanaethau rheolaidd i drafod hawliau'r plant. Mae hyn yn cael eu hysbysebu o amgylch yr ysgol, ar y teledu a gydag aelodau seneddol lleol. O ganlyniad, mae lles ac agwedd bron bob disgybl yn arbennig.

Mae bron pob disgybl yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel o fewn yr ethos gofalgar, cynhwysol a chynhaliol. Mae bron pob disgybl yn awyddus i fynychu'r ysgol ac yn dangos parodrwydd a brwdfrydedd amlwg tuag at eu gwaith. Mae safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth bron pob un mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol yn uchel. Maent yn gwrtais ac yn groesawgar tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr.

Mae bron bob disgybl yn falch iawn o'r cyfleoedd a gânt i ddatblygu eu medrau arwain. Mae llais y disgybl yn cael sylw haeddiannol ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol. Trwy eu pwyllgorau amrywiol, mae disgyblion yn ymfalchïo yn yr hyn y maent yn ei gyflawni i wella'r amgylchedd. Mae'r aelodau yn frwdfrydig ac yn deall eu bod yn cynrychioli safbwyntiau disgyblion eraill o fewn y gymuned. Mae disgyblion hŷn

yn cymryd cyfrifoldeb aeddfed i hybu a chefnogi lles eu cyfoedion trwy weithredu arferion arferol sydd wedi'u gwreiddio'n llawn. Mae'r llysgenhadon chwaraeon yn arwain eu cyfoedion iau i chwarae'n llwyddiannus ac yn magu ymwybyddiaeth gadarn ynddynt am bwy i droi atynt mewn achosion o bryder.

Mae'r disgyblion yn ymateb yn frwdfrydig i'r cyfleoedd gwerthfawr a gânt i ddatblygu'n ddinasyddion cydwybodol ac egwyddorol. Enghraifft dda o hyn yw ymgyrch y pwyllgor eco i leihau gwastraff gwellt plastig yn y cyfnod sylfaen er mwyn amddiffyn cynefin morol naturiol y Mwmbwls. Nodwedd arbennig yw cyfraniad criw 'Tafod Tawe' sy'n arwain gweithgareddau yn llwyddiannus i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg. Mae'r cyngor ysgol yn trefnu gweithgareddau amrywiol i gyfrannu at fanc bwyd lleol ac yn codi arian at elusennau cenedlaethol yn flynyddol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth disgyblion o anghenion pobl eraill yn ogystal â datblygu ymdeimlad o falchder o'u cyfraniad i'w cymuned a'r byd ehangach.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos ymagweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu. Maent yn ddysgwyr brwdfrydig sy'n cydweithio'n dda ac yn cadw ar dasg dros gyfnodau estynedig. Mae'r rhan fwyaf yn dangos lefelau da o gymhelliant, diddordeb a balchder yn eu gwaith. Maent yn gwrando ar safbwyntiau eraill yn ofalus ac yn aros eu tro yn amyneddgar. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ethos yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu safonau.

Mae perthnasoedd gweithio rhwng disgyblion a staff yn nodwedd gref yr ysgol ac yn cyfrannu'n helaeth at yr awyrgylch ddysgu ddychmygus. O ganlyniad, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos gallu cynyddol i gydgynllunio ac i fynegi barn am yr hyn maent yn ei ddysgu. Drwy gyfrannu at gynllunio themâu, mae rhan fwyaf y disgyblion wedi ymrwymo'n llwyddiannus i'r tasgau dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn cydweithio'n effeithiol ac yn annibynnol, yn enwedig yn y cyfnod sylfaen. O oed cynnar, mae gan y rhan fwyaf ohonynt ddealltwriaeth dda o sut i wella eu gwaith. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gallu dewis y lefel cywir o her yn annibynnol yn y dosbarth ac wrth ddewis o'u bwydlen gwaith cartref amrywiol. Erbyn Blwyddyn 6, mae disgyblion yn arfarnu'r hyn maent wedi ei gyflawni'n dda ac yn adnabod yr hyn sydd angen iddynt wneud i wella eu gwaith.

Mae disgyblion yn defnyddio eu medrau TGCh yn gelfydd ac yn greadigol i greu ffilm fer i ddenu pobl at eu bro. Maent yn mwynhau cyfleoedd cyson i gydweithio ag artistiaid, darlunwyr a beirdd lleol gan gynhyrchu cyweithiau deniadol sy'n berthnasol iawn i'w milltir sgwâr. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn datblygu'n ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, hyderus sy'n cydweithio'n gytûn. Nodwedd arbennig yw cyfraniad aeddfed y 'doethion digidol' wrth gefnogi'r disgyblion iau yn gyson gyda'u medrau TGCh.

Mae gan bron pob un disgybl ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Mae'r pwyllgor ysgolion iach yn cynnal siop ffrwythau amser egwyl sydd yn annog disgyblion i fwyta ac yfed byrbrydau iachus. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall pwysigrwydd cadw'n heini ac maent yn ymgymryd â gweithgarwch corfforol yn rheolaidd. Mae bron bob un yn deall pwysigrwydd cadw'u hunain yn ddiogel yn yr ysgol, gartref, ar y ffordd ac ar-lein.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae perthynas waith effeithiol iawn yn bodoli rhwng holl oedolion a disgyblion yr ysgol. Mae'n seiliedig ar barch ac yn meithrin awyrgylch ddysgu llwyddiannus. Mae'r holl oedolion yn fodelau rôl ieithyddol gadarn, yn ennyn diddordeb disgyblion yn dda ac yn rheoli ymddygiad yn effeithiol. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd buddiol o gynorthwywyr dysgu er mwyn cefnogi unigolion a grwpiau o ddysgwyr yn fedrus er mwyn herio'r disgyblion. Mae'r arddangosfeydd trwy gydol yr ysgol yn ysgogol iawn ac yn gyfuniad o ddathlu gwaith disgyblion a chymorth i'w cynorthwyo â'u dysgu yn annibynnol. Enghraifft o hyn yw'r wal 'syniadau gwyddoniaeth gwych' yng nghyfnod allweddol 2 a thestunau trafod yn yr ardal berfformio.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi gwreiddio'n dda yn yr ysgol. Mae rhan fwyaf yr athrawon yn defnyddio amrywiaeth eang o strategaethau dysgu diddorol er mwyn cynnal diddordeb y disgyblion. Yn ogystal, maent yn amrywio eu dulliau o holi yn gelfydd yn ôl yr angen. Mae'r holl athrawon yn rhannu nodau a meini prawf llwyddiant yn glir. Maent yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion wella darnau penodol o'u gwaith trwy gyfrwng 'gwyrdd gwella' ynghyd â chyfleoedd syml i hunanasesu ac asesu cyfoedion. Ychydig o gyfleoedd sydd i'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 greu eu meini prawf llwyddiant eu hunain. Mae rhan fwyaf yr athrawon yn rhoi adborth adeiladol a phwrpasol ar waith disgyblion. O ganlyniad, mae targedau iaith a mathemateg y disgyblion yn eu cynorthwyo i wella eu gwaith yn gyson. Mae'r athrawon yn darparu fframweithiau defnyddiol i gynorthwyo medrau ysgrifennu disgyblion ac, o ganlyniad, mae safonau ysgrifennu rhan fwyaf y disgyblion yn dda. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw y disgyblion mwy abl bob amser yn cael eu herio hyd eithaf eu gallu.

Mae'r cynlluniau cwricwlaidd wedi eu llunio gyda phwyslais penodol ar anghenion y disgyblion gan fod yn seiliedig ar werthoedd yr ardal leol. Enghreifftiau o hyn yw'r themau 'Cariad@Fae' sydd yn gyfle i astudio ardal leol y Mwmbwls, a'r thema 'Abertawe'n Fflam' sy'n rhoi gogwydd leol a pherthnasol i'r Ail Ryfel Byd. Mae'r gweithgareddau yn gyffrous ac yn cwmpasu rhan fwyaf y meysydd dysgu. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddewis eu defnydd o'r ardaloedd chwarae rôl, er enghraifft y parlwr hufen iâ yng nghyfnod allweddol 2, ynghyd â chyflwyno heriau penodol. Mae hyn wedi ychwanegu at agwedd gadarnhaol a brwdfrydig y disgyblion tuag at eu dysgu. Mae'r profiadau yn arwain y disgyblion i fod yn unigolion uchelgeisiol, hyderus, dyheadol a gwybodus. Fodd bynnag, nid yw disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cael digon o gyfleoedd i wneud dewisiadau mewn perthynas â'u dysgu.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi gwreiddio'n llwyddiannus iawn ac mae llais y disgybl yn gryfder. Enghraifft o hyn yw'r newid yn y gornel ddarllen i fod yn ardal o dan y môr er mwyn creu ardal fwy deniadol yn y dosbarth i ddenu mwy o ddarllenwyr. Mae defnydd effeithiol iawn yn cael ei wneud o'r awyr agored yn y cyfnod sylfaen ac mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cael profiadau gwerthfawr yn yr awyr agored trwy weithgareddau ysgol goed yn rheolaidd.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws y cwricwlwm yn dda. Mae athrawon cyfnod allweddol 2 yn gwneud defnydd effeithiol o'r sesiynau sgiliau i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd yr holl ddisgyblion. Mae ystafell amlgyfrwng bwrpasol hefyd yn adnodd gwerthfawr i ddatblygu medrau

digidol y disgyblion. Enghraifft effeithiol o hyn yw'r defnydd o'r gofod eang a'r sgrîn werdd i greu hysbyseb mewn ffilm i ddenu ymwelwyr i Abertawe.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r staff yn hyrwyddo diwylliant, iaith a threftadaeth Cymru yn fedrus ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae balchder gan y disgyblion yn eu bro. Mae ethos naturiol Cymraeg a Chymreig yn bodoli yn yr ysgol. Esiampl dda o hyn yw'r ffordd mae'r Criw Siarter Iaith, sef 'Tafod Tawe', yn arwain gweithgareddau niferus yn llwyddiannus i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg.

Mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwych i ganu mewn cyngherddau, perfformio mewn sioeau ac i gystadlu mewn eisteddfodau sy'n hyrwyddo'u defnydd o'r iaith yn llwyddiannus. Mae hyn yn datblygu eu hunanhyder ac yn cynnig profiadau newydd iddynt. Mae'r athrawon yn cynllunio ystod eang o weithgareddau er mwyn datblygu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o hanes, diwylliant a thraddodiadau'r ardal leol a Chymru.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus. Mae cynllunio'r addysgu a'r profiadau dysgu o amgylch hawliau'r plentyn yn galluogi'r disgyblion i ddeall eu hawliau a sut i fod yn ddinasyddion teg a chyfiawn. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn parchu aml-ddiwylliannau, agweddau o amrywiaeth a datblygu tegwch a chyfle cyfartal yn effeithiol iawn. Yn ogystal, mae'r athrawon yn cynllunio rhagen gynhwysfawr o wersi addysg bersonol a chymdeithasol sy'n ategu datblygiad medrau emosiynol a chymdeithasol pob disgybl.

Mae perthynas gadarn yn bodoli rhwng y rhieni a'r ysgol. Mae rhan fwyaf y rhieni yn gwerthfawrogi'r cyfathrebu cyson ac yn teimlo bod yr ysgol yn barod i wrando a gweithredu ar eu barn. Mae hyn yn eu hannog i chwarae rhan weithredol ym mywyd yr ysgol trwy ddefnyddio'u harbenigedd yn llwyddiannus i gefnogi a chyfoethogi'r dysgu. Enghraifft dda o hyn yw sut mae'r rhieni yn cefnogi'r disgyblion mwy abl i wella'u medrau ysgrifennu estynedig a hefyd wrth gynnal gweithgareddau 'ysgol goed'. Trwy adroddiadau blynyddol a thymhorol, mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth gynhwysfawr am gynnydd eu plant tuag at dargedau. Mae cyfleoedd i'r disgyblion fynegi barn am eu datblygiad a'u hoff weithgareddau yn gryfder yr adroddiadau.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi dechrau datblygu gweithdrefnau olrhain cynnydd disgyblion yn fwy trwyadl. Fodd bynnag, mae rhy gynnar i ddefnyddio'r wybodaeth i fesur cynnydd unigolyn a grwpiau penodol o ddisgyblion dros gyfnod o amser. Mae'r arweinwyr yn cynorthwyo'r athrawon i adnabod y disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol. Maent yn cydnabod pwysigrwydd ymyrraeth gynnar ac yn sicrhau bod y disgyblion yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau. Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun dysgu priodol sy'n cynnwys targedau er mwyn adnabod y camau sydd angen arnynt i wella eu gwaith.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos ag amrywiaeth o asiantaethau allanol er mwyn darparu cefnogaeth werthfawr i ddisgyblion. Mae gan yr ysgol strategaethau penodol i gefnogi anghenion emosiynol a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol, er enghraifft drwy raglenni maethu mewn cydweithrediad â'r swyddog rhianta. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at yr ethos gofalgar a theuluol sy'n bodoli yn yr ysgol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae cyfleoedd buddiol ar gael i gyfoethogi profiadau ymarfer corff mewn gwersi a

chlybiau allgyrsiol, gan gynnwys sesiynau yoga arbenigol.  Mae’r ysgol yn annog y disgyblion i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd meddwl yn ogystal â’u hiechyd corfforol yn fedrus.

Mae disgyblion yn cael cyfleoedd defnyddiol i ddylanwadu ar elfennau o waith yr ysgol, er enghraifft trwy gynnig syniadau i’r cyngor ysgol yn eu blychau casglu barn a chynnig syniadau ar ddechrau’r themâu.  Yn y cyfnod sylfaen, mae’r disgyblion yn gwneud dewisiadau da dros yr hyn y maent yn ei dysgu.  Fodd bynnag, nid yw disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cael digon o gyfleoedd i wneud dewisiadau mewn perthynas â’u dysgu.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau celfyddydau creadigol y disgyblion yn arbennig.  Mae cyfleoedd eang i ddisgyblion arbrofi ag amrywiaeth o gyfryngau celf i arlunio, creu cerfluniau a murlenni wrth astudio gwaith arlunwyr lleol, adnabyddus. Trwy wersi, perfformiadau a chystadlaethau, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ymwneud â’r celfyddydau creadigol.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Da

Ers Medi, mae’r uwch dîm rheoli, sy’n cynnwys y pennaeth a dirprwy bennaeth dros dro, wedi llwyddo i gynnal ethos o gydweithio effeithiol.  Mae’r pennaeth dros dro yn darparu arweiniad cadarn a chlir i waith yr ysgol.  Mae ganddi weledigaeth eglur sy’n seiliedig ar greu ysgol gynhwysfawr a gofalgar lle mae lles disgyblion yn ganolog i holl waith yr ysgol.  Mae’n gweithio’n llwyddiannus gyda’r uwch dîm rheoli, disgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni i weithredu’r weledigaeth hon yn llwyddiannus.

Yn ddiweddar iawn, oherwydd newid strwythur mewn arweinyddiaeth, mae’r pennaeth dros dro wedi ehangu a chryfhau rolau a chyfrifoldebau’r arweinyddol yr uwch dîm rheoli.  O ganlyniad, maent yn adeiladu ar eu gallu i ddatblygu eu rolau strategol a’i chefnogi yn fwriadus.  Er enghraifft, maent yn arwain ar y gwaith o gynllunio a gwerthuso effeithiolrwydd y cwricwlwm a chymryd cyfrifoldeb am arwain ar rheoli perfformiad staff.  Fodd bynnag, nid yw eu rolau arweinyddol newydd wedi eu ddatblygu’n llawn ac mae’n rhy gynnar i fesur eu heffaith ar safonau ac ansawdd y ddarpariaeth.

Mae arweinwyr yn cynllunio’n drwyadl i fodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen yn cael eu gweithredu’n llwyddiannus, ac o ganlyniad, mae disgyblion yn cael cyfleoedd da i weithio’n annibynnol ac i wneud dewisiadau am yr hyn maent yn ei ddysgu.  Maent yn cynllunio’n dda i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.  O ganlyniad, mae’r iaith Gymraeg yn gonglfaen i holl weithgareddau’r ysgol.  Mae arweinwyr yn cydweithio’n llwyddiannus ar gyfer gweithredu’r cwricwlwm newydd i Gymru wrth gynllunio yn unol â’r pedwar diben craidd.  O ganlyniad, mae disgyblion yn derbyn ystod eang o brofiadau cyffrous o fewn cyd-destun eu bywyd dyddiol.  Mae hyn yn cynnig cyfleoedd iddynt gymhwyso eu medrau llythrennedd rhifedd a TGCh yn llwyddiannus.

Mae diwylliant ac ethos cryf o gefnogi dysgu proffesiynol staff yn bodoli yn yr ysgol. Mae cyfleoedd da i bob aelod o staff wella eu harfer a chodi safonau.  Mae hyn, er

enghraifft, wedi arwain at welliant mewn medrau TGCh ar draws yr ysgol. Mae trefniadau rheoli perfformiad y staff yn gadarn, ac yn cysylltu'n uniongyrchol â blaenoriaethau'r ysgol ac anghenion athrawon unigol. Mae cyfleoedd buddiol i athrawon arsylwi arfer dda sydd o fewn yr ysgol a thrafod y canfyddiadau. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at sicrhau addysgu o ansawdd da ar draws yr ysgol. Mae athrawon ac arweinwyr wedi rhannu agweddau o'u harfer gydag ysgolion eraill o fewn yr awdurdod lleol ac ar draws y consortiwm. Er enghraifft, ynglŷn ag egwyddorion effeithiol y cyfnod sylfaen a hawliau plant.

Er bod aelodaeth y corff llywodraethol wedi newid yn ddiweddar, maent yn deall eu rôl ac yn cynnig cymorth ac her i'r arweinwyr o fewn yr ysgol yn llwyddiannus. Mae cyfarfodydd y corff llawn a'r is-bwyllgorau pwrpasol yn canolbwyntio ar gyflawniad disgyblion ynghyd â gwireddu eu cyfrifoldebau statudol. Mae ganddynt wybodaeth gyfredol a manwl am berfformiad yr ysgol, effeithiolrwydd y ddarpariaeth a chynnydd disgyblion. Gwneir defnydd pwrpasol o'r wybodaeth yma i gydweithio'n effeithiol gydag arweinwyr i osod cyfeiriad strategol clir ar gyfer datblygu'r ysgol. Mae defnydd buddiol o arbenigedd llywodraethwyr unigol i gefnogi agweddau penodol, er enghraifft i ddatblygu medrau arweinyddiaeth aelodau o staff.

Mae arweinwyr yn casglu a dadansoddi ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol er mwyn arfarnu safonau disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth. Trwy graffu ar waith disgyblion, arsylwi gwersi, gwrando ar lais y plentyn a dadansoddi data, maent yn dod i farn deg a chywir ynglŷn â safonau ynghyd ac adnabod agweddau sydd angen eu datblygu ymhellach.

Mae'r blaenoriaethau gwelliant, sy'n cael eu cynnwys yn y cynllun datblygu ysgol, yn deillio'n uniongyrchol o ganfyddiadau'r broses hunanarfarnu. Maent yn canolbwyntio'n glir ar ddatblygu'r ddarpariaeth a chodi safonau yn ogystal ag ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol. Mae gan yr ysgol hanes da o wneud gwelliannau. Dros gyfnod o dair blynedd, mae safonau iaith, mathemateg a TGCh disgyblion wedi gwella'n gyson. Enghraifft dda o hyn yw gwelliant ym medrau ysgrifennu Cymraeg bechgyn yn nghyfnod allweddol 2.

Mae'r arweinwyr yn rheoli adnoddau yn effeithiol. Mae penderfyniadau gwariant yn cyd-fynd yn glir â blaenoriaethau strategol yr ysgol. Mae'r gyllideb yn cael ei defnyddio yn effeithiol i ymateb i anghenion penodol, er enghraifft drwy greu ystafell aml-gyfrwng pwrpasol. Mae hyn yn cael effaith llwyddiannus ar y cyfleoedd i'r disgyblion gymhwyso eu medrau TGCh ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ardaloedd dysgu mewnol ac allanol yn cael eu defnyddio'n greadigol iawn. Mae'r amgylchedd mewnol yn lliwgar ac yn ysgogol ac yn cyfrannu'n llwyddiannus iawn at greu ethos Cymreig cryf o fewn yr ysgol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 31/01/2019